

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Elizabeth Davies (Llanfair) sydd yn parhau yn Ysbyty Gobowen a Bob Davies (Llanfair) sydd yn Ysbyty Llandudno. Cyflwynwn y ddau i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.
- Cofiwn hefyd am y rhai sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf, a chyflwynwn hwy yn dyner i ofal yr Arglwydd. Gweddïwn y bydd pawb sy'n galaru am anwyliaid yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Diolch yn fawr i bawb sydd eisoes wedi cyfrannu tuag at Gasgliad y Chwiorydd. Os oes rhywun arall yn dymuno cyfrannu, bydd trysorydd y chwiorydd yn eich eglwys yn ddiolchgar o dderbyn eich cyfraniad **yn y dyddiau nesaf hyn**, os gwelwch yn dda. **Nodyn i'r Trysoryddion:** A wnewch chi anfon yr arian i Mair (gydag unrhyw sic yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled') erbyn Ebrill 8fed, os gwelwch yn dda?

I ddod

- **CYFARFOD BLYNYDDOL CHWIORYDD ANNIBYNWYR Y GOGLEDD** yng Nghapel y Tabernacl, Llanrwst dydd Sadwrn, Ebrill 5ed am 2.00. Y siaradwraig wadd fydd y Parch Anita Parry Ephraim.
- Derbynnir **CYWEITHIAU'R YSGOLION SUL** ar y thema 'Dathliadau'r Beibl a'r Eglwys' nos Lun, Ebrill 7fed, yng Nghapel Hyfrydle, Betws yn Rhos, rhwng 7 ac 8 o'r gloch.
- **NEW WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Ebrill 7fed – 12fed ac Ebrill 12fed-17eg. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 474 0009/www.newwordalive.org.
- **CYFARFOD CYMDEITHASOL CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 8fed am 7.30. Y wraig wadd fydd y Parch. Nan Wyn Powell-Davies. Croeso cynnes i bawb.
- **BLAS A BYWYD** – Swper a chyfle i baratoi at y Pasg nos Fercher, Ebrill 9fed. Lleoliad a mwy o fanylion yr wythnos nesaf.
- **LLANW** – Gŵyl Gristnogol i ddathlu'r atgyfodiad ar gyfer y teulu cyfan yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro rhwng Ebrill 21ain-25ain. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan: www.llanw.org
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Nolgellau dydd Mercher, Ebrill 30ain. Mwy o fanylion i ddilyn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 30^{ain} Mawrth 2014

Darlleniad y Dydd

Salm 46

(BCND tud.515 / BCN: tud.471)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon ar hyd y dydd heddiw, a chroeso arbennig i Oedfa'r Fro ar daith yn Henllan heno. Edrychwn ymlaen at gael ceisio a moli'r Arglwydd gyda'n gilydd dan arweiniad yr Ysbryd Glân.

Dwi'n siŵr fod y rhan fwyaf ohonom wedi clywed y newyddion diweddar am y drychineb yn y Dwyrain Pell. Bu'n dair wythnos ddirdynnol i deuluoedd a chyfeillion y rhai oedd ar awyren Malaysian Airlines MH370. Byth ers i'r awyren ddiflannu ar ei thaith o Kuala Lumpur i Beijing ar Fawrth 8fed gyda 239 o bobl arni, mae'r pytau o newyddion wedi bod yn amrywio gan gynnig damcaniaeth wahanol o ddydd i ddydd. Ar ôl pythefnos o holi cwestiynau a gobeithio, erbyn hyn mae Prif Weinidog Malaysia wedi cadarnhau'n swyddogol nad oes gobaith bod unrhyw un wedi goroesi. Yn sgil hynny, chwilio am ddarnau o'r awyren yn unig a wneir yng Nghefnfor India i'r gorllewin o Awstralia. Anodd yw dychmygu sefyllfa'r bobl sydd wedi'u heffeithio gan yr hanes trist hwn. Beth allwn ni ei wneud mewn sefyllfa o'r fath ond cydymdeimlo a gweddïo dros y rhai sydd mewn sioc a galar.

Mae'n darlleniad ar y cyd heddiw yn Salm gyfarwydd ac yn sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at adegau o gyfyngder dyrys. Mae'r Salm ydd yn mynegi ei hyder yn yr Arglwydd fel amddiffynfa a ffynhonnell ei obaith pan fo popeth arall yn dymchwel o' i gwmpas. Hyd yn oed petai'r ddaear yn ysgwyd ac yn wyneb y terfysgoedd mwyaf brawychus gall y crediniwr droi at ei Arglwydd gan wybod mai Ef sydd Dduw a'i fod goruwch pawb a phopeth arall yn ei allu a'i lywodraeth. Er mai ymosodiadau gelynyddion sydd yn gefndir i'r Salm hon, mae'r gwirionedd am yr Arglwydd sy'n sylfaen iddi i fod yn gysur ac yn gynhafiaeth i unrhyw un sy'n dod at Grist gan ymddiried yn llwyr ynddo. A dyna'n union sydd angen i ni ei wneud – fel yr oedd y Gyfraith Iddewig yn annog rhai mewn angen i ddianc i'r ddinas noddfa am ddiogelwch – felly y mae'r Iesu ei hun yn gwahodd pawb sydd yn llwythog ac yn flinedig i ddod ato ef am orffwys i'w heneidiau. (Mathew 11:28-30.) Ef yn unig all roi gorffwys tragwyddol i ni a hynny oherwydd Ei fywyd, Ei aberth a'i atgyfodiad un waith am byth dros ei bobl. Ar ddechrau wythnos arall, os ydym ni mewn sefyllfa argyfyngus ein hunain, neu'n gweddïo dros eraill sydd mewn angen, cofiwn am addewidion cadarn Duw a diolchwn y gall y Cristion ddibynnu ar fod 'Arglwydd y Lluoedd gyda ni, Duw Jacob yn gaer i ni.'

Darlleniad Wythnos Nesaf

Colosiaid 1:15-20 (BCND tud.220 / BCN: tud.202)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro ar Daith** – y tro hwn yng Nghapel Henllan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac fe fydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac fe gynhelir Cyfarfod Gweddi yno am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun a bydd Aled a Nerys Jones yn cyflwyno Elsa Mair i'w bedyddio yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00, a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd a'r oedolion am 11.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.